# Gwaelod y Garth

Cylchlythyr Wythnosol / Weekly Newsletter

**12.09.25**




## Gair gan y Pennaeth - Headteacher's Greeting

Mae'n bosib eich bod wedi clywed bod ambell newid wedi bod i drefniadau dyddiol ers dechrau'r tymor, gan gynnwys lleoliadau chwarae a threfniadau neuadd ginio i'r plant hŷn. Mae'r rhain yn sgil sylwadau ein disgyblion yn eu holiaduron yn yr Haf. Braf iawn yw gallu sicrhau bod syniadau ein plant yn cael eu gwireddu.

Un newid arall yw ein penderfyniad i gynnal **milltir-yr-wythnos.** Cyfle i bob plentyn herio eu hunain i gerdded neu redeg milltir (neu ragor!). Braf iawn oedd gweld y plant yn herio eu hunain tra hefyd yn cefnogi ei gilydd. Fe lwyddom rhwng cawodydd trwm o law a'n bwriad yw cynnal hwn pob wythnos – pan fo'r tywydd yn caniatáu!

Cofiwch am ein cyfarfodydd **Cwrdd â'r Athro nos Fawrth (16/9).** Bydd rhain yn cael eu cynnal yn nosbarthiadau eich plant a chyfle i fynychu naill ai am **3.40pm** neu am **4.10pm**. Maent yn gyfarfodydd pwysig i ddeall cwricwlwm a threfn y dosbarth, a chlywed am faterion pwysig fel cefnogi darllen. Gofynnwn i chi sicrhau bod cynrychiolaeth gan bob teulu. Ni fydd cyfarfodydd i rieni plant y Feithrin. Cofiwch hefyd am

- gyfarfod blynyddol y GRhA nos Fercher 17 (mae nodyn isod). Braf iawn fyddai gweld nifer yno, gan gynnwys pobl newydd. Diolch!
- ein cwrs 'Teuloedd yn Dysgu Gyda'i Gilydd" i rieni yn cychwyn Dydd Mercher 17. Os hoffech fynychu, rhowch wybod i swyddfa'r ysgol. Mae rhagor o fanylion isod.

✲ ✲ ✲ ✲ ✲ ✲

You may have heard that there changes to some daily arrangements since the start of term, including play locations and lunch hall arrangements for the older children. These are due to comments made by pupils in our Summer questionnaires. We truly value being able to listen to our children's voices and ensure that their ideas are realised.

One more change is our decision to run **a mile-a-week.** A chance for every child to challenge themselves to walk or run a mile (or more!). It was heartening to see the children challenging themselves whilst also supporting each other, from the oldest to the youngest. We managed this week's mile between heavy rain showers and it is our intention is to hold this every week – weather permitting!

Our annual **Meet the Teacher** meetings will take place on **Tuesday evening (16/9).** These will be in your children's classes and you will have the opportunity to attend at either 3.40pm or 4.10pm. These are important meetings to understand the curriculum and class organisation and to hear about important issues such as supporting reading. We ask that you ensure that every family is represented. There will be no meetings for parents of Nursery children. Please also remember:

- The AGM of the PTA is on Wednesday 17 (note below). It would be very nice to see a large number there, including new members. Diolch!
- Our 'Families Learning Together' course for parents starts Wednesday 17. If you would like to attend, please let the school office know. More details below.

## Dyddiadau Pwysig
## *Important Dates*

**Mawrth / Tues 16/9/25**
3.40pm / 4.10pm
Pob rhiant - Cyfarfodydd Cwrdd â'r athrawon
*All parents – Meet the teacher meetings*

**17/9 (9-11am)**
Cychwyn 'Dysgu fel Teulu'
Families Learning Together

**24/9 - 26/9/25**
6C Llangrannog
Taith Breswyl / Residential

**14/10/25 & 15/10/25**
Nosweithiau Rhieni
Parents' Evenings

**15/10 – 17/10**
Year 6 (2E) Llangrannog
Taith Breswyl / Residential

**Gwener / Friday 24/10/25**
Diwrnod HMS
*INSET Day*

Mae rhestr llawn o ddyddiadau'r Tymor a Gwasanaethau Dosbarth y flwyddyn belllach wedi'u ebostio atoch.

*A full list of this term's imptatnt dates and this year's Class Assemblies were sent to you earlier this week.*

---

Cofiwch am ein calendr byw ar dudalen cartref y wefan.

*Our live calendar is on our school website's homepage.*

## Bws Beics

Dyma ddyddiadau'r bws beics ar gyfer y tymor:

Dydd Gwener Medi 26
Dydd Gwener Hydref 10

Dydd Gwener Tachwedd 14
Dydd Gwener Tachwedd 28
Dydd Gwener Rhagfyr 12

## Bike Bus

The bike bus dates for this term are:

Friday September 26
Friday October 10

Friday November 14
Friday November 28
Friday December 12

**Bws Beics: Croeso i aelodau newydd bob amser!**

***Bike Bus: New members always welcome!***











## Dillad Coll

Rydym wedi darganfod sawl eitem o ddillad ac eiddo coll ar draws yr ysgol eto yr wythnos hon. Yn anffodus, gyda nifer heb enwau plant, nid yw'n bosib i ni ddychwelyd eitemau coll i'r plant. Cais diffuant iawn felly i sicrhau bod enw eich plant ar bob dilledyn, pob bag a phob eitem o'u heiddo.

## Lost Clothes

We have found several items of clothing and belongings at school again this week. Unfortunately, with a many items not labelled with children's names, it is not possible for us to return lost items to children. Please accept this very sincere request to make sure that your children's name is on every garment, every bag and every item of belongings.

## PWYSIG: Casglu Diwedd Dydd

Er mwyn sicrhau cadw pob plentyn yn ddiogel, mae hi'n bwysig ein bod yn derbyn rhybudd digonol am unrhyw newidiadau i drefniadau casglu arferol diwedd dydd. Gofynnwn i chi roi rhybudd **CYN y diwrnod** lle bo hynny'n bosib. Lle bo angen newidiadau ar y dydd, **ffonio** (nid ebostio) swyddfa'r ysgol a gwneud hynny erbyn **1.30pm** man pellaf.
Diolch yn fawr.

## IMPORTANT: End of Day Collection

To ensure that all children are kept safe, it is important that we receive adequate notice of any changes to normal end-of-day collection arrangements. Please inform us **prior** to the day. Where last changes are absolutely necessary on the day, please **telephone** (not email) the school office by 1.30pm at the latest.

Diolch yn fawr.




## Neges gan y GRhA

Bydd **Cyfarfod Blynyddol** Cymdeithas Rhieni ac Athrawon ar yr **17eg o Fedi am 7:15yh** yn yr ystafell bwyllgor yng nghefn neuadd yr ysgol, a byddem wrth ein bodd yn gweld cynifer ohonoch yno ag sy'n bosibl. Bydd y pwyllgor presennol yn camu i lawr, felly rydym yn chwilio am wirfoddolwyr newydd i helpu i redeg y GRhA yn y dyfodol.

Rydym yn gwybod bod pawb yn brysur, ond heb bwyllgor newydd, yn anffodus, ni fydd modd i'r GRhA barhau — a byddai hynny'n golygu colli'r holl bethau ychwanegol a'r digwyddiadau hwyliog y mae'r GRhA yn eu helpu i'w trefnu ar gyfer cymuned yr ysgol.

Os ydych erioed wedi meddwl am gymryd rhan, neu os hoffech chi glywed mwy am yr hyn sydd ynghlwm (dim pwysau!), dewch i'r cyfarfod — gall hyd yn oed cynnig bach o gymorth wneud gwahaniaeth mawr.

Diolch o galon i chi am eich cefnogaeth barhaus.

## A message from the PTA

Our PTA **Annual General Meeting (AGM)** is coming up on the **17th of September @ 7:15pm** at the school hall committee room and we'd love to see as many of you there as possible. The current committee will be stepping down, so we're looking for new volunteers to help run the PTA going forward.


We know everyone's busy, but without a new committee, sadly, the PTA won't be able to continue — and that would mean missing out on all the extras and fun events the PTA helps make happen for the school community.

If you've ever thought about getting involved or just want to hear more about what's involved (no pressure!), please do come along to the AGM — even small offers of help can make a big difference.

Thank you so much for your continued support.

# Teuluoedd yn Dysgu Gyda'i Gilydd

Cardiff and Vale College
Coleg Caerdydd a'r Fro



**Enw'r Cwrs: Straeon a Thrysorau**

**Ysgol: Gwaelod y Garth**

**Dechrau: Dydd Mercher 17eg o Fedi, 9:00yb**

**Ar gyfer rhieni/gofalwyr/mamgu/tadcu plant Meithrin, Derbyn, Bl 1 a 2**



## MANYLION Y CWRS


YMUNWCH Â NI AR ANTUR DDIFYR I'R TEULU LLE MAE MATHEMATEG YN DOD YN FYW DRWY STRAEON, GEMAU A GWEITHGAREDDAU YMARFEROL!. BOB WYTHNOS, BYDDWN YN DARLLEN STORI NEWYDD SY'N TANIO CHWILFRYDEDD AC YN ARWAIN AT HERIAU MATHEMATEGOL CYFFROUS. DEWCH YN FYFYRIWR AR Y CWRS ACHREDIG HWN - AM DDIM!

AR AGOR I BAWB: RHIENI DI-GYMRAEG, DYSGWYR A SIARADWYR RHUGL

**Cysylltwch â ni**
**families@cavc.ac.uk**

# Families Learning Together

Cardiff and Vale College
Coleg Caerdydd a'r Fro



Course name: Tales and Treasures

School: Gwaelod y Garth

Starting: Wednesday the 17th of September, 9:00am

For parents/carers/grandparents of children in Nursery, Reception, Year 1 and 2

Come along to find out more with no obligation to sign up!

## COURSE DETAILS

JOIN US FOR A FUN-FILLED FAMILY LEARNING ADVENTURE WHERE MATHS COMES TO LIFE THROUGH STORIES, GAMES, AND HANDS-ON ACTIVITIES! EACH WEEK, FAMILIES WILL EXPLORE A NEW STORY THAT SPARKS CURIOSITY AND SETS THE STAGE FOR EXCITING, PRACTICAL CHALLENGES. BECOME A STUDENT WITH THIS FREE, ACCREDITED COURSE. OPEN TO ALL: NON-WELSH SPEAKERS, LEARNERS AND FLUENT SPEAKERS.




## Contact us

families@cavc.ac.uk

## CWRS CODI HYDER CYMRAEG - RHAD AC AM DDIM!

Aethoch chi i ysgol gyfun Gymraeg ond 'dych chi wedi colli eich hyder i ddefnyddio'ch Cymraeg?

Os felly, ymunwch â'r cwrs Codi Hyder. Bydd hyn yn gyfle gwych i ganolbwyntio ar beth hoffech chi wella am eich Cymraeg gyda phobl sydd yn union yr un cwch â chi, a thiwtor Cymraeg profiadol.

*Bob nos Lun; 10 wythnos; 18.30 - 20.30; 29/09/25 - 15/12/25; Prifysgol Caerdydd*
*Dyddiad Cau: 22/09/25*

**Cofrestrwch yma:** https://learnwelsh.cymru/learning/course/614c152e-b089-f011-b855-d14c987c1e60/
Am fwy o wybodaeth, ebostiwch Anna Fflur Jones: jonesa251@cardiff.ac.uk

menter caerdydd

## WELSH CONFIDENCE BUILDING COURSE - FREE!

Did you go to a Welsh comprehensive school but you've lost your confidence in using your Welsh?

If so, join the Confidence Building course. This will be a great opportunity to focus on what you would like to improve about your Welsh with people who are exactly the same boat as you, and an experienced Welsh tutor.

*Every Monday night; 10 weeks; 18.30 - 20.30; 29/09/25 - 15/12/25; Cardiff University*
*Closing Date: 22/09/25*

**Register here:** https://learnwelsh.cymru/learning/course/614c152e-b089-f011-b855-d14c987c1e60/
For more information, please email Anna Fflur Jones: jonesa251@cardiff.ac.uk

Llongyfarchiadau mawr i'n Capteiniaid Llys newydd ar eu hetholiad!
Congratulations to our newly-elected House Captains!

Capteiniaid Llys
Eisteddfod
2025-26
*Eisteddfod*
*House Captains*





Capteiniaid Llys
Chwaraeon
2025-26
*Sports*
*House Captains*

## Cymro / Cymraes yr Wythnos

## Welsh learners of the week







## Dysgwyr yr Wythnos

## Learners of the week